Fflatiau Fforddiadwy i'w rhentu yn Clarence House, 14 Russell Road, Y Rhyl, Ll18 3BY

Mae fflatiau fforddiadwy ar gael yn Clarence House, 14 Russell Road, Y Rhyl i'w rhentu i ymgeiswyr sydd wedi cofrestru ar gofrestr Perchnogaeth Cartref Fforddiadwy / Rhentu Fforddiadwy Cyngor Sir Ddinbych.

Mae 2 fflat, 1 llofft wedi eu hadnewyddu'n llawn ar gael.
~~Fflat 2~~ – wedi ei gynnig
Fflat 7 – fflat llawr cyntaf sy'n cynnwys lolfa, cegin, llofft ddwbl, stydi ac ymolchfa

Y rhent misol yw £340, sef 80% o'r rhent marchnad leol.
Yn ychwanegol i'r rhent, mae tâl gwasanaeth o £43.33 y mis yn daladwy, mewn perthynas â chynnal a chadw'r fflatiau, ardaloedd cymunedol, gardd a maes parcio, goleuo, gwresogi a glanhau'r ardaloedd cymunedol.

Bydd yn ofynnol i chi dalu un mis o rent fel blaendal a fydd yn cael ei gadw mewn cynllun diogelu blaendal tenantiaeth, bydd y blaendal yn cael ei ad-dalu i chi ar ddiwedd y denantiaeth cyn belled bod yr eiddo yn cael ei drosglwyddo yn ôl mewn cyflwr derbyniol ac nad oes gennych unrhyw ddyledion yn ddyledus i'r landlord.

Nid yw'r landlord yn caniatáu anifeiliaid anwes, ac eithrio bwji.

Er mwyn cydymffurfio â chanllawiau cynllunio, mae'n rhaid i'r darpar denant fod dros 55 oed a chydymffurfio â'r maen prawf preswylio a nodir isod.

MAEN PRAWF PRESWYLIO

Mae'n rhaid i ymgeiswyr fod â chysylltiad lleol â Rhyl, fodd bynnag, gellir ystyried ymgeiswyr o gymunedau cyfagos o fewn 5 milltir i Rhyl, ond rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr o Rhyl.

Er mwyn bod yn gymwys, mae'n rhaid i chi gwrdd ag un o'r meini prawf preswylio â ganlyn:

- Byw neu breswylio fel ei phrif gartref yng nghymuned Y Rhyl am 5 mlynedd yn union cyn derbyn meddiannaeth arfaethedig o'r fflat fforddiadwy, **NEU**
- Wedi byw/preswylio yn y gorffennol fel ei phrif gartref yn barhaol yng nghymuned Y Rhyl am 5 mlynedd ac yn dymuno symud yn ôl, **NEU**
- Wedi gweithio'n ddi-dor yng nghymuned Y Rhyl am o leiaf 5 mlynedd, neu wedi ymddeol o waith yn y gymuned o fewn y 2 flynedd ddiwethaf, yn dilyn gweithio'n ddi-dor yn yr ardal am o leiaf 5 mlynedd.
- Person sydd wedi gadael eiddo ynghlwm â gwaith fel ei phrif gartref ac sydd wedi byw neu weithio yn yr ardal am isafswm o 5 mlynedd, **NEU**
- Symud i mewn i'r gymuned er mwyn edrych ar ôl perthynas/ffrind agos sy'n (i) gymwys a (ii) mewn angen gofal a sylw dwys.

Os nad oes neb yn gymwys o fewn y meini prawf preswylio 5 mlynedd, ystyrir ymgeiswyr sydd o fewn meini prawf preswylio 4 neu 3 blynedd.

Os ydych chi'n gymwys o fewn y meini prawf preswylio, ac â diddordeb yn y fflatiau hyn, cysylltwch â Williams Estates, 17-19 Kinmel Street, Y Rhyl, LL18 1AH, sef yr asiant gosod. Ffoniwch 01745 369444 i drefnu i weld y fflatiau.

Yna, os ydych yn dymuno bwrw ymlaen gyda'ch cais, hoffem dderbyn:

- Cadarnhad o ble rydych chi wedi byw am y 5 mlynedd diwethaf, noder fod angen i chi ddarparu dogfennau sydd â'ch enw a'ch cyfeiriad arnynt, ac rydym angen un ddogfen ar gyfer bob blwyddyn.
- Cadarnhad eich bod dros 55 mlwydd oed ac wedi ymddeol.

Os ydych chi'n gymwys, byddwn ni'n eich hysbysu chi a Williams Estates, ac yna byddwch yn cael eich gwahodd i fwrw ymlaen gyda'r denantiaeth. Bydd Williams Estate yn cynnal gwiriad credyd a bydd yn ofynnol i chi dalu'r ffi.

Bydd y cytundeb/les tenantiaeth yn un aswiriedig byrlys 6 mis, a threigl wedi hynny, a bydd angen 1 mis o rybudd o'r denantiaeth, a 2 fis o rybudd gan y landlord i derfynu'r cytundeb/les.